



Ein cyf/Our ref JMEWL/00236/24

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adam Price AS
Adam.Price@senedd.cymru

15 Chwefror 2024

Annwyl Adam

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Ionawr ynglŷn â Choleg Sir Gâr, ac yn benodol Campws Rhydaman.

Mae colegau'n gyfrifol am reoli eu hystâd yn strategol ac mae cau unrhyw gampws neu gyfleusterau yn benderfyniad lleol. Mae Coleg Sir Gâr wedi cynnal adolygiad helaeth o'i ystâd gyffredinol i sicrhau y gallant ddiwallu anghenion dysgwyr ar draws y Sir yn y ffordd orau. Nododd yr adolygiad y byddai angen mynd ati i'r sicrhau bod yr ystâd yn cael ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn gwella sefydlogrwydd ariannol a chaniatáu i'r coleg fuddsoddi mewn cyfleusterau i ddarparu mannau addysgu a dysgu o'r radd flaenaf a fyddai'n gwella'r cwricwlwm a gynigir a phrofiad y dysgwr.

Mae'r cyfleusterau ar Gampws Rhydaman yn gyffredinol mewn cyflwr gwael neu wael iawn, sy'n gostus i'w cynnal ac sy'n aneffeithlon. Mae'r safle hefyd yn agored i lifogydd ac mae o fewn Parth Llifogydd 3 yn ôl y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a fyddai'n cyfyngu ar y potensial ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Roedd tîm arweinyddiaeth a llywodraethwyr Coleg Sir Gâr yn cytuno mai adleoli'r ddarpariaeth o Gampws Rhydaman a Job's Well i Gampws Pibwrlwyd fyddai'r opsiwn gorau i'r coleg a'r dysgwyr ledled y Sir.

Mae'r coleg wedi fy sicrhau y bydd cymorth sylweddol ar gael i ddysgwyr a staff drwy gydol y cyfnod pontio. Bydd cludiant hefyd yn cael ei ddarparu i ddysgwyr o Rydaman i Gampws Pibwrlwyd.

Mae'r coleg wedi cynnwys buddsoddiad yng Nghampws Pibwrlwyd fel rhan o'u rhaglen amlinellol strategol ar gyfer buddsoddi o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd y prosiect, a fydd yn cael ei ddarparu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf yng Nghampws Pibwrlwyd. Bydd y cyfleusterau newydd yn disodli adeiladau sydd mewn cyflwr gwael, a fydd yn gwella profiad y dysgwr yn sylweddol, gan ddarparu cyfleusterau hamdden a lles ychwanegol. Cymeradwywyd y rhaglen amlinellol strategol yn 2017 a chymeradwywyd yr achos amlinellol strategol yn 2023. Mae'r coleg bellach yn gweithio gyda swyddogion a chynghorwyr technegol i gwblhau briff eu prosiect, y bydd angen ei roi i WEPCo i'w ystyried.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n llwyr werthfawrogi y bydd eich etholwyr yn pryderu am gau Campws Rhydaman. Fodd bynnag, bydd y camau i ddefnyddio ystâd y coleg yn fwy effeithlon, ynghyd â'r buddsoddiad arfaethedig ar Gampws Pibwrlwyd, yn sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor y coleg, tra hefyd yn gwella cyfleusterau a darpariaeth y cwricwlwm yn sylweddol, gan fod o fudd i ddysgwyr a staff ledled Sir Gaerfyrddin.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language